# CYNLLUN GWEITHREDU AMCANION CYDRADDOLDEB 2018 - 2019

## Adrodd Canlyniadau, Mawrth 2019

**AMCAN 1** **PRIF-FFRYDIO CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH DRWY ALLUOGWYR STRATEGOL Y BRIFYSGOL**

**Dyletswydd Cydraddoldeb** **Sicrhau dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da**

**Prifysgol** **Galluogwyr Strategol y Cynllun Strategol**

| GWEITHREDU CYDRADDOLDEB | MESUR LLWYDDIANT | MESUR LLWYDDIANT | CANLYNIAD |
|---|---|---|---|
| Asesiadau Effaith Cydraddoldeb<br><br>Sicrhau bod dogfennaeth yn addas i'r diben, ar gael ar y we, darparu hyfforddiant priodol a pharhau i godi ymwybyddiaeth. | 1. Bydd ffurflenni a chanllawiau Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd newydd eu diwygio yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ynghyd â chanllawiau Panopto. Bydd hyfforddiant pellach ar gael ar gais.<br>2. Cedwir yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn ganolog ac yn hygyrch.<br>Caiff y defnydd o Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a'u cofnodion eu monitro. | Adnoddau Dynol a Phennaeth Cydymffurfio | Mae ffurflenni a chanllawiau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb diwygiedig ar wefan Adnoddau Dynol, ac mae hyfforddiant wedi'i gynnwys yn y gweithdy hanner diwrnod Cydraddoldeb i Reolwyr.<br>Bydd y gofyniad i gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael ei fonitro gan y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio fel rhan o'r gofrestr Rheoli'r Polisi.<br>Os na chwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, bydd hyn yn cael ei gwestiynu, a lle bo angen, gofynnir i berchennog y polisi lenwi'r ddogfen hon cyn i'r polisi gael ei roi ar y we. |
| Lledaenu a chyfathrebu'r ymrwymiad i gydraddoldeb | 1. Rhwydwaith o staff hyfforddedig sy'n gallu cefnogi cynlluniau a hyrwyddo cydraddoldeb ar lefel | Adnoddau Dynol | 1 Penodwyd chwe hyrwyddwr cydraddoldeb ac maent wedi cael dwy sesiwn hyfforddi ddechreuol. Cyhoeddwyd pwrpas eu swyddogaethau a'u henwau |

| | |
|---|---|
| Datblygu swydd yr Hyrwyddwyr Cydraddoldeb i weithredu fel cysylltiadau allweddol yn y maes hwn i rannu ystyriaethau ac ymarfer gorau ar draws y brifysgol. | Colegau ac Adrannau a fydd yn trafod ystyriaethau a godir gyda'r Swyddog Cydraddoldeb. |
| Ymgorffori cydraddoldeb ar draws y tri Choleg academaidd. | 2. Hyrwyddo a chefnogi ceisiadau Athena SWAN<br>ar lefel ysgol gan gynnwys ymrwymiad y brifysgol i'r siarter Athena SWAN estynedig a'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â chefnogi staff a myfyrwyr Traws yn ogystal â chydnabod a rhoi sylw i faterion ynghylch sut y gall gender ryngweithio ag ethnigrwydd.<br>3. Cyflwyno pwyllgorau cydraddoldeb yn y Colegau.<br>4. Gweithio gydag Ysgolion a Cholegau i wella'r drefn o ddefnyddio |

| | | |
|---|---|---|
| | gynnwys yr iaith Gymraeg. | |

swyddogion sabothol y myfyrwyr.

6. Data

Hyrwyddo'r rhaglen Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

Darparu hyfforddiant y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi i staff Caffael (yn cynnwys y modiwl cydraddoldeb/moeseg).

Sicrhau bod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol yn Undeb Bangor gan ddarparu hyfforddiant priodol a pharhau i godi ymwybyddiaeth.

y Brifysgol.

2. Bydd yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn (y cyfnod adrodd fydd y flwyddyn academaidd flaenorol)

3. Mae'r Archwiliad Cyflog Cyfartal i'w gyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn (data o'r mis Mawrth blaenorol).

4. Mae'r Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau i'w gyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn (data o'r

Staff anabl

Adolygu'r Polisi i sicrhau cefnogaeth briodol i staff anabl.

Hyfforddiant i reolwyr ar reoli absenoldeb a chefnogi staff.

Adolygiad o'r Gwasanaeth Cwnsela cyfrinachol (darparwr allanol).

2. Cyngor ar gydraddoldeb ar gael yng Nghanllawiau Cyflenwyr y brifysgol ac ar y wefan.

arbennig ar ganlyniad y digwyddiad, dyddiad ac amseriad, lleoliad a hygyrchedd, gwastraff posibl a gynhyrchir, dwyieithrwydd, ac arlwyo (gyda phwyslais ar iechyd, yr ardal leol ac effeithlonrwydd adnoddau).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Undeb Bangor. | | | |

**AMCAN 2** **ADDYSG A PHROFIAD RHAGOROL I FYFYRWYR**

**Dyletswydd Cydraddoldeb** **Sicrhau dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda**

**Prifysgol** **Blaenoriaeth Strategol 1: Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfyrwyr**
**Blaenoriaeth Strategol 3: Prifysgol Ryngwladol i'r Rhanbarthau**

| **GWEITHREDU CYDRADDOLDEB** | **MESUR LLWYDDIANT** | **Cyfrifoldeb** | |
|---|---|---|---|
| <u>Strategaeth Profiad Myfyrwyr</u><br><br>Strategaeth Profiad Myfyrwyr 2015-2018<br><br>Llunio adroddiad terfynol ar ganlyniadau'r strategaeth gan gynnwys cyfeirio at sut y bydd y gwaith yn cael ei ymgorffori mewn arferion presennol.<br><br>Gweithredu'r Polisi ar Oddef Dim Aflonyddu ar | 1. Caiff yr adroddiad ei ddosbarthu i'r Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr, y Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Pwyllgor Gweithredu a'r Senedd.<br><br>2. Datblygu trefn ymateb | | |

Fyfyrwyr

genedlaethol ac i Aelodau Cynulliad Cymru i hyrwyddo pwysigrwydd yr adnodd hwn. Ar hyn o bryd mae Pennaeth Cwnsela yn trafod gyda HEFCW ynghylch menter genedlaethol i ddarparu adnoddau

Lobïo ar faterion
mynediad anabl.
Ymgyrchu dros
fynediad trwy
allweddi radar i
doiledau anabl.
Hyrwyddo hyfforddiant
cynwysoldeb
anabledd mewn
chwaraeon

LGBTQ + gan gynnwys:

- hyfforddiant ymwybyddiaeth
- Ymgyrch dros doiledau gender niwtral.
-

| | | |
|---|---|---|
| Aflonyddu i Fyfyrwyr yn enwedig mewn perthynas â 'diwylliant y llanc'. | myfyrwyr yn fwy ymwybodol o ystyr y polisïau hyn a'n safbwynt ni. | 6. Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi ar bolisi Man Diogel a Goddef Dim Undeb Bangor fel rhan o'r Polisi Arweinyddiaeth Myfyrwyr. |
| Gweithio o amgylch sut mae cyflawni profiad dysgu mwy amrywiol a chynhwysol i fyfyrwyr lleiafrifoedd ethnig du | 7. Gweithio gyda'n Cynghorydd Undeb Bangor dros Fyfyrwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig ar sut i godi proffil y rhwystrau a wynebir gan fyfyrwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig megis y bwlch cyrhaeddiad, ac ehangu ein gwaith ar gwricwlwm cynhwysol i edrych yn fwy manwl ar fyfyrwyr dduon ac o leiafrifoedd ethnig. Datblygu grŵp ffocws Myfyrwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig i edrych ar gynrychiolaeth a sut y gall myfyrwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig deimlo eu bod wedi eu cynnwys fwy yn Undeb y Myfyrwyr. | 7. Rydym yn gweithio i hyrwyddo arolwg y comisiwn Hawliau Dynol a Chyfartal ar brofiad myfyrwyr o aflonyddu hiliol. Mae ein His-lywydd dros Addysg a'n His-lywydd dros Gymdeithasau a Gwirfoddoli hefyd yn bwriadu gweithio gyda'n Cynghorydd dros Fyfyrwyr |

Ehangu Mynediad

| | | |
|---|---|---|
| Cydweithio gyda'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ac mewn gwaith gyda Gadawyr Gofal. | 1. Mwy o weithgarwch yn paratoi rhai sy'n gadael gofal ar gyfer Addysg Uwch gan gydweithio â Gwasanaethau Myfyrwyr yn benodol mewn perthynas â chefnogaeth Iechyd Meddwl. | Pennaeth Ehangu |
| Gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Gofalwyr ac asiantaethau eraill i gyrraedd Gofalwyr Ifanc, Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion. | 2. Sefydlu ysgol undydd a/neu weithgaredd penwythnos yng Ngogledd Orllewin Cymru. | |
| Hwyluso gweithgareddau gan yr ysgolion academaidd mewn gwaith perthnasol sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn y gymuned. | 3. Mwy o weithgaredd yn ymwneud â gweithgareddau mewn Ysgolion. | |
| Hyrwyddo darpariaeth Uned Dyslecsia Miles. | 4. Sefydlu cyfres o weithdai ar gyfer ysgolion a grwpiau cymunedol. | |
| Mewn cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai, darparu Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth o Fyddardod, cyflwyniad i Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a chyrsiau dilyniant i staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor. | 5. Darparu cyrsiau cyfleus a chodi ymwybyddiaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | access/projects/index.php.en<br><br>Yn ystod 2018/19, mae nifer y myfyrwyr a'r staff ar y ddarpariaeth BSL, mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai, wedi cynyddu'n sylweddol. Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus 'Clust i Wrando' ym mis Hydref 2018 ac un o'r canlyniadau yw perfformiad gan Jonny Cotsen, mewn partneriaeth â Galeri, Caernarfon. Louder is Not Always Clearer |

Ymestyn yn

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth RCUK5, yn gweithredu Egwyddor y Concordat Ymchwil ac egwyddorion Siarter Athena SWAN. | 3. Gwelliant parhaus mewn ymateb staff i feysydd perthnasol y Careers in Research Online Survey (CROS). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fydd yn creu cymuned gynhwysol i holl bobl Draws. | Swyddog Cydraddoldeb Myfyrwyr | Cytunwyd ar Bolisi a Chanllawiau i Staff a'u cyhoeddi ym mis Ionawr 2019. Mae polisi a chanllawiau ar gyfer myfyrwyr Traws ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd a chânt eu cyflwyno i'r Grŵp Trais ar Sail Rhyw yn y flwyddyn newydd. |
| <u>Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)</u><br><br>Sicrhau bod Cod Ymarfer REF y Brifysgol yn cydymffurfio â chydraddoldeb ac yn sicrhau dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda.<br><br>Sicrhau bod pob aelod staff Prifysgol sy'n cymryd rhan yn y drefn ddewis ar gyfer y REF wedi cwblhau hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb. | 1. Mae Prifysgol Bangor yn paratoi ar gyfer REF 2021 gan ddefnyddio ymarfer Rhaglen Dreigl REF. Ymarfer gweinyddol yw hwn sy'n golygu adolygu'r systemau, data, gweithgareddau ac allbynnau ym maes ymchwil yn flynyddol. Un o ganlyniadau allweddol rhaglen dreigl y REF yw rhoi diweddariad blynyddol i unigolion ar eu cynnydd tuag at gyflwyno eu hymchwil. Cynhelir Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb o Ionawr 2019 ymlaen i sicrhau dull teg o ddethol allbynnau.<br><br>2. Monitro i gadarnhau bod y staff sy'n cymryd rhan yng Nghod Ymarfer y REF ac yng ngweithredu'r goblygiadau cydraddoldeb perthnasol wedi derbyn hyfforddiant | | |